**Darluniau ar y sgrin:** Golygfeydd o goedwig, gweirglodd a chae. Ceir hefyd gerflun derw o ddyn mewn côt gyda ffon a chi.

**Adroddwr:** Fi yw'r cwm, rwyf wedi cadw ei stori yn wir,
Oherwydd fi yw'r Ceidwad ond rwyf wedi cysgu am amser hir.

Edrychwch o'ch cwmpas nawr, wrth i mi ddeffro,
Edrychwch ar fy myd wrth iddo fynd heibio
Yma mae presennol, anrheg o'r gorffennol
Gan y rhai a fu farw a'r rhai fydd yn priodi
Yma, mae popeth yn gysylltiedig, yma mae popeth yn un,
Does dim ffiniau i'n gwahanu, fi yw'r cwm

Fi yw'r ceunant gwag yng nghrud y ddaear
Bryniau yn ben, gwyrddni yn draed
Tirwedd gyforiog o fywyd,
Ffenestri'n wincian, tystion mud.

Fi yw'r marwor yn y tân,
Gem emrallt, cadwyn o lechen lân,
Lliain mân yn dyllau cwningod afradlon
Llecyn glanio i rocedi estron

Fi yw'r disgo i gacwn a gwenyn
Peli gliter o aeron mewn coed ar linyn
Caffi i wenoliaid sy'n llyncu pob pryfyn
Pasteiod mwd plant a blodau menyn

Trac rasio cyflym i wlithod a malwod
Record cyflymder ar dir i ddail ar ddisberod
Siop felysion i was y neidr, yng ngwres yr haul
Cyfle i eistedd, cerdded a rhedeg am yn ail

Fi yw'r atalnod yn stori'r afon
Dafnau glaw yn ddiemwntau bodlon,
Fi yw'r anrheg - pobl sydd wedi goroesi,
Fi yw'r cwm ac fe fyddaf i yn ffynnu."

**Testun ar y sgrin:** Ewch am dro i Barc Lles Maesteg, Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr. CF34 9PW.

Chwiliwch am: titw mawr, ystlum lleiaf, delor y cnau, llygad Ebrill.

Ewch i gwrdd â Cheidwad y Cwm.